

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 19 Ebrill 2018 am 10.30 am ym Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd J Rosser Y Cyngorydd R Lewis Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms E Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol
Ms L Davies, Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch Cymunedol
Ms W Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd J Bonetto Y Cyngorydd S Bradwick Y Cyngorydd A Chapman
Y Cyngorydd H Fychan Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd J Brencher

133 YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G Hopkins.

134 Datgan buddiant

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

135 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2018, yn rhai cywir.

136 DATBLYGU CANOLFANNAU/HYBIAU CYMUNED YN RHONDDA CYNON TAF

Rhoddodd y Cyfarwyddwr dros Faterion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned drosolwg o'i adroddiad i Aelodau. Mae'r adroddiad yn

cynnig rhaglen o fuddsoddiad mewn gwasanaethau i gymunedau ar draws y Fwrdeistref Sirol trwy ddatblygu Hybiau Cymuned yn rhan o agwedd y Cyngor tuag at greu cymunedau cydnerth, ac ymyrraeth gynnar ac atal. Rhoddodd fanylion pellach mewn perthynas â datblygu Hybiau Cymuned yng Nghanolfan Oriau Dydd Aberpennar a chyn Ysgol Babanod Glynrhedynog.

Cafodd yr Aelodau wybod byddai datblygu hybiau cymuned o'r fath yn dod â gwasanaethau o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ynghyd, gan greu arbedion mawr o ran staffio a chostau adeiladau. Ychwanegodd y byddai gwneud defnydd mwy cost-effeithiol o asedau cymunedol y Cyngor ac ail-fuddsoddi adnoddau mewn adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi cael eu hôl-osod yn galluogi gwasanaethau i fod yn gynaliadwy yn y tymor hirach. Cyfeiriodd at y bartneriaeth sy'n gweithio gyda'r sefydliad trydydd sector, Partneriaeth Fern mewn perthynas â chynnig Glynrhedynog.

Rhoddodd fanylion am yr ymgynghoriadau cyhoeddus a gafodd eu cynnal mewn perthynas â datblygu Hybiau Cymuned yng Nghanolfan Oriau Dydd Aberpennar a chyn Ysgol Babanod Glynrhedynog i'r Cabinet. Yn ogystal â hyn, rhoddodd drosolwg i'r Cabinet o'r ymatebion a gafodd eu derbyn.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at y trefniadau ariannu a soniodd am y cyllid allanol posibl ar gyfer cynnig Glynrhedynog a dyraniad y Cyngor o £500,000 ar gyfer datblygu Hybiau Cymuned, yn dilyn ystyriaeth flaenorol o flaenoriaethau Buddsoddiad Corfforaethol y Cyngor.

Diolchodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Lles i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad a siaradodd yn gadarnhaol ynghylch y cynigion a chydleoli gwasanaethau i'w galluogi i ddod yn fwy hygyrch ar gyfer y Gymuned. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y cyfleoedd i adeiladu ymhellach ar y cyfleoedd sydd ar gael o fewn cymunedau i weithio gyda'r sector gwirfoddol ac i adeiladu, cynnal a gwella'r darpariaethau er lles yr holl gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Yn dilyn nifer o ymholiadau ac er budd yr Aelodau a phobl yn yr oriel gyhoeddus, eglurodd yr Arweinydd yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno yn yr adroddiad:

- Bydd modd defnyddio waliau sy'n llithro a pharedau hyblyg yng Nghanolfan Oriau Dydd Aberpennar a bydd modd newid y cynlluniau llawr i ystyried hyn.
- Bydd yr holl weithgareddau sy'n cael eu cynnal yng Nghanolfan Oriau Dydd Aberpennar (ar wahân i rai sy'n cael eu cynnal gan Yfed Doeth, Heneiddio'n Dda sy'n dod i ben yn naturiol – Cyrlio Dan Do) yn cael eu cynnwys yn yr Hwb Cymuned arfaethedig.
- Does dim cynnig i dorri nifer yr oriau y mae'r Hyb Cymuned ar gael.
- Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn parhau i ddefnyddio'r Hwb Cymuned yn Aberpennar. Caiff partneriaid eraill eu hannog i ddefnyddio'r Hwb i ddarparu gwasanaethau o'r adeilad.
- Ni fydd llai o gyfrifiaduron yn yr Hwb a bydd modd newid lleoliad arfaethedig y cyfrifiaduron i gwrdd ag anghenion defnyddwyr.
- Yn ôl yr hyn sy'n arferol yn dilyn newid safle llyfrgell, bydd y stoc o lyfrau'n cael ei lleihau 5%. Bydd hyn yn caniatáu i'r llyfrgell gael gwared â llyfrau sydd heb gael eu defnyddio am 2 flynedd a llyfrau sydd mewn cyflwr gwael. Bydd y llyfrgell hefyd yn cael stoc newydd. Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda'r gymuned i ddiwallu anghenion y defnyddiwr.
- Mae'r lle sydd ar gael yn Hwb Aberpennar yn debyg i'r hyn oedd ar gael

yn y Ganolfan Oriau Dydd. Trwy ychwanegu'r ystafell gyfarfod, bydd ychydig yn fwy.

- Cafodd pob adeilad cymunedol o fewn yr ardaloedd eu mapio mewn perthynas â'r cynigion ond Canolfan Oriau Dydd Aberpennar oedd yn cyfateb orau.

Cyn galw ar Aelodau eraill i roi sylwadau ar y cynigion, rhoddodd y Cyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus ddiweddariad i Aelodau ar y trafodaethau ym Mhwyllgor Craffu ar faterion Iechyd a Lles yn ei gyfarfod ar 16 Ebrill mewn perthynas â Hybiau Cymuned. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu bod Aelodau wedi penderfynu yn y cyfarfod:

- Gofyn i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Ebrill 2018 ohirio trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac argymhellion eraill mewn perthynas â'r adroddiad yn ymwneud â'r Hwb Cymuned arfaethedig yn Aberpennar o ystyried y pryderon a gafodd eu codi gan y Pwyllgor Craffu ar faterion Iechyd a Lles; a
- Bod y Pwyllgor Craffu ar faterion Iechyd a Lles yn ymgymryd â gwaith craffu pellach o'r model ar gyfer Hwb Cymuned Aberpennar er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion y gymuned ac adrodd ei ganfyddiadau i'r Cabinet.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cyfarfod cyn y cyfarfod craffu a gafodd ei gynnal ym mis Hydref 2017 mewn perthynas â chyflawni'r 'Cynllun Corfforaethol – Y Ffordd Ymlaen' lle'r oedd yr Aelodau'n archwilio'r ffordd waith 'Ymyrraeth Gynnar ac Atal' a chreu Hybiau Cymuned o fewn y ffordd waith. Dywedodd yr Arweinydd bod Aelodau Craffu wedi cefnogi'r ffordd ymlaen gyda'r ffordd waith yma ac felly ni fyddai'r eitem yn cael ei gohirio.

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd yn gadarnhaol ynghylch y cynigion a gwnaeth sylwadau ar lefel y buddsoddiad sy'n cael ei wneud yng nghymunedau Aberpennar a Glynrhedynog, er ein bod dal mewn cyfnod o gynni. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd am yr angen i ddarparu ar gyfer holl anghenion cymunedau, a fyddai'n bosibl ei gyflawni trwy gynigion yr Hybiau Cymuned.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai hefyd yn cefnogi'r ceisiadau a gwnaeth sylwadau bod cais Glynrhedynog ar gyfer Cwm Rhondda Fach i gyd, ac nid Cymuned Glynrhedynog yn unig. Cyfeiriodd hefyd at sut y byddai'r Hwb Cymuned yn chwarae rôl wrth annog pobl i ganol trefi a chroesawodd y cynigion sydd wedi'u gwneud.

Ar y pwynt yma yn y cyfarfod galwodd yr Arweinydd ar y siaradwyr cyhoeddus canlynol. Rhoddwyd 5 munud iddyn nhw annerch y Cabinet ar y cynigion. Wedi hyn ymatebodd y Cyfarwyddwr dros Faterion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned i'r sylwadau a gafodd eu codi:

C Ballard
J Rymer
K Maiden
D A Jones
L Woods

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu, byddai

ymgysylltiad pellach gyda defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau y byddai holl anghenion y Cymunedau'n cael eu diwallu.

Siaradodd y Dirprwy Aelod Cabinet am y cyfle i hybu ymgysylltu cymunedol rhwng y genhedlaeth iau a'r genhedlaeth hŷn mewn amgylchedd Hwb Cymuned a'r gwerth y gall rhyngweithio o'r fath ei gael i bawb sy'n gysylltiedig. Ailadroddodd yr angen am gynaliadwyedd gwasanaethau ar gyfer yr holl gymunedau lleol drwy'r Hybiau Cymuned a fyddai'n ailgynllunio a gwella'r gwasanaethau cymunedol sy'n cael eu cynnig ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan ymestyn yr ystod o wasanaethau a gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n cael eu cynnig o un lleoliad hygyrch. Dywedodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet sut y gallai'r Hybiau weithredu fel llwyfan i gyrraedd pobl agored i niwed yn y gymuned a chefnogi cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a datblygu sgiliau.

Yn dilyn trafodaethau pellach mewn perthynas â'r cynigion, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Datblygu'r Hybiau Cymuned yn raddol ar draws Rhondda Cynon Taf dros gyfnod o dair blynedd fel y manylir yn yr adroddiad.
2. Yn dilyn ystyriaeth o ddeilliannau'r ymarfer ymgynghori a gafodd ei wneud mewn perthynas â Chanolfan Oriau Dydd Aberpennar a materion eraill sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad a'i atodiad, ddatblygu Hwb Cymuned yng Nghanolfan Oriau Dydd Aberpennar.
3. Yn dilyn ystyriaeth o ddeilliannau'r ymarfer ymgynghori a gafodd ei wneud mewn perthynas â Hwb Cymuned Glynrhedynog a materion eraill sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad a'i atodiad, ddatblygu Hwb Cymuned yng nghyn Ysgol Babanod Glynrhedynog, yn amodol bod Partneriaeth Fern yn sicrhau cyllid allanol i gefnogi'r datblygiad
4. Bod ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal gyda defnyddwyr y gwasanaeth mewn perthynas â chynllun yr Hybiau Cymuned a sicrhau bod anghenion defnyddwyr y gwasanaeth presennol yn cael eu hymgorffori.
5. Cymeradwyo'r buddsoddiad cyfalaf fel cyfraniad cyllido cyfatebol tuag at gais Partneriaeth Fern ar gyfer cyllid allanol i gefnogi datblygiad yr Hwb Cymuned, a
6. Bod y Cyngor yn dod i gytundeb prydlesol gyda Phartneriaeth Fern mewn perthynas â chyn Ysgol Babanod Glynrhedynog.

137

GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (SYLWEDDAU MEDDWOL GAN GYNNWYS ALCOHOL)

Derbyn adroddiad Pennaeth Materion Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, a Chymunedau Diogel sy'n nodi deiliant y broses ymgynghori â'r cyhoedd, mewn perthynas â'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i reoli achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Rhondda Cynon Taf ac i estyn y Gorchymyn i gynnwys dau barth gwaharddedig penodol i reoli defnydd sylweddau meddwol yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr.

Cafodd yr Aelodau eu hysbysu bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal rhwng 15 Ionawr a 12 Mawrth. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriad ar-lein, achlysuron ymgysylltu a dulliau eraill o gyfathrebu gyda rhanddeiliaid. Cyfeiriodd y Swyddog yr Aelodau at ddeilliannau'r ymgynghoriad sy'n dangos bod 80% o ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Cyngor gadw'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus sy'n gwneud Bwrdeistref Sirol RhCT i gyd yn barth yfed a reolir. Hefyd, dywedodd 80% o ymatebwyr y dylai'r Cyngor gynnwys parth gwahardd sylweddau meddwol ym Mhontypridd, o'i chymharu â 67% yn Aberdâr. Dywedodd bod barn y Fforwm leuenctid ychydig yn wahanol i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Diolchodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant i'r swyddog am yr adroddiad ac am ymgysylltiad y cyhoedd yn y broses ymgynghori, gyda'r holl rhanddeiliaid yn gyffredinol yn cytuno â'r cynigion. Soniodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet am y problemau canfyddedig ar draws RhCT mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a throedd ac anrhefn a'r effaith gadarnhaol y gallai'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus gael i gynorthwyo yn y maes yma. Soniodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet am yr ymagwedd sydd angen ei gymryd mewn perthynas â hyfforddiant priodol ar gamddefnyddio sylweddau i swyddogion awdurdodedig. Byddai hyn yn sicrhau bod ystod briodol o gamau gweithredu ac ymyriadau, ac nid cosbau penodedig yn unig, ar gael i swyddogion sy'n nodi pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Cafodd mater 'dadleoli' ei gyfeirio ato hefyd a dywedodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet y byddai gwaith monitro agos yn cael ei wneud. Cafodd cynnig ei wneud hefyd i addasu'r parth gwaharddiad i gynnwys blaen Gorsaf Drenau Pontypridd a Maes Parcio'r Gadlys yn Aberdâr.

Siaradodd y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol S Bradwick, J Brencher a H Fychan ar yr eitem yma.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi'r gefnogaeth gyhoeddus sylweddol ar gyfer cadw ac ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i gynnwys gwaharddiadau a gofynion i reoli ymddygiad gwrth-gymdeithasol sy'n ymwneud ag alcohol (a sylweddau meddwol).
2. Yn dilyn ystyriaeth o ddeilliannau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gafodd ei gynnal a materion eraill sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad a'r atodiad: gwneud gorchymyn i gadw'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan i reoli ymddygiad gwrth-gymdeithasol sy'n ymwneud ag alcohol ac ymestyn y Gorchymyn i gynnwys dau barth gwahardd sylweddau meddwol (gan gynnwys alcohol) mewn mannau cyhoeddus yng nghanol trefi Aberdâr a Phontypridd fel sy'n cael ei fanylu yn Atodiad 2 o'r adroddiad ac i gynnwys blaen Gorsaf Reilffordd Pontypridd a Maes Parcio'r Gadlys, Aberdâr o fewn y Gorchymyn, gyda'r dyddiad cychwyn 1 Medi 2018;
3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd Lunio Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus terfynol sy'n ymwneud â Sylweddau Meddwol gan gynnwys Alcohol, a sicrhau ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor;
4. Gosod y ddirwy am gosbau penodedig ar gyfer troseddau sy'n groes i'r

Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn £100.

5. Ariannu'r broses o weithredu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn 2018/19 trwy'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.
6. Cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth a marchnata broffil uchel cyn dyddiad dechrau arfaethedig y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar 1 Medi 2018.

(Fel y mae Cofnod 134 yn nodi, gadawodd y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol R Bevan, M Webber, A Crimmings a M Norris y cyfarfod pan drafodwyd a phleidleisiwyd ar yr eitem yma).

138 NEWID I DREFN YR AGENDA

PENDERFYNODD y Cabinet y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

(**O.N.** yn y fan yma yn y cyfarfod, gadawodd y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol M Norris a J Brencher y cyfarfod a datganodd yr Arweinydd bod toriad o 5 munud.)

139 CYNIG SEFYDLU YSGOL 3–19 OED AR SAFLE GARTH OLWG

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes at yr adroddiad sy'n nodi deilliant yr hysbysiad statudol a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar parthed sefydlu ysgol 'pob oed' 3-19 oed ar Gampws Dysgu Gydol Oes Garth Olwg, Pentre'r Eglwys. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bydd y cynnig yn cael ei gyflawni drwy gau Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Garth Olwg ac agor ysgol 'pob oed' ar y safle, gan ddefnyddio'r safle presennol.

Cafodd Aelodau eu hysbysu bod pedwar gwrthwynebiad i'r cynnig wedi cael eu derbyn a bod ymatebion wedi'u rhoi.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes sylwadau ar y cynnig a dywedodd nad oedd unrhyw broblemau wedi cael eu nodi yn yr Aseidiadau Effaith. Ychwanegodd bod y cynnig yn ffurfioli'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd a byddai'n arwain at wneud gwell defnydd o'r safle.

Siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol H Fychan ar yr eitem yma ac ymatebodd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi bod pedwar gwrthwynebiad i'r cynnig wedi cael eu derbyn ac wedi cael ymateb.
2. Bod yr adroddiad gwrthwynebiadau drafft (wedi'u cynnwys yn yr adroddiad fel Atodiad A) ar gael ar wefan y Cyngor.
3. Gweithredu'r cynnig i greu ysgol 3-19 'pob oed' ar Gampws Dysgu Gydol Oes Garth Olwg, lle bydd yr adeiladau ysgol sy'n bodoli'n barod yn parhau i gael eu defnyddio.
4. Bydd yr ysgol newydd yn agor ar 1 Medi 2019.

(O.N. Fel y cyfeiriwyd ato yng Nghofnod 134, datganodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol H Fychan fuddiant personol mewn perthynas â'r eitem. Yn y fan yma yn y cyfarfod, gadawodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J Rosser y cyfarfod.)

140 YMGYNGHORI – NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I GYFANSODDIAD Y CYNGOR

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet drosolwg i'r Aelodau o'i adroddiad a oedd yn gofyn am farn yr Aelodau mewn perthynas â diwygiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet wedi cael eu hymgyngori ar y newidiadau cyn iddyn nhw gael eu trafod gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.

Cafodd Aelodau eu hysbysu am y newidiadau arfaethedig mewn perthynas â'r weithdrefn galw i mewn Trosolwg a Chraffu, gan adrodd i Aelodau a'r blaenraglenni gwaith. Soniodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet am yr adborth cadarnhaol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r cynigion.

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd yn gadarnhaol ar y cynigion, gan ychwanegu, pe byddai'r cynigion yn cael eu symud ymlaen yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol byddai'r broses dan sylw o gymorth i ddangos ymagwedd gadarn y Cyngor tuag at wneud penderfyniadau a byddai'n cryfhau trefniadau Llywodraethu Cyngorau. Ychwanegodd fod y cynigion yn caniatáu i'r Aelodau ddefnyddio'r dulliau technoleg gwell sydd ar gael iddyn nhw a dyma yw'r agwedd 'synnwyr cyffredin'.

PENDERFYNWYD:

1. Cytuno ar y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu, fel sy'n cael eu hamlinellu yn adran 5 yr adroddiad;
2. Mabwysiadu arferion cyson ar draws strwythurau'r Pwyllgorau i sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth i Aelodau fel sy'n cael ei amlinellu yn adran 6 a 7 yr adroddiad;
3. Cymeradwyo mabwysiadu'r diwygiadau arfaethedig mewn perthynas â Chyfansoddiad y Cyngor i'r Cyngor Llawn yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Mai 2018;
4. Cyfarwyddo Swyddog Monitro'r Cyngor a'r Ysgrifennydd i'r Cabinet i lunio adroddiad ar y cyd i'w gyflwyno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2018 y Cyngor mewn perthynas â'r diwygiadau arfaethedig.

141 YMATEB Y CABINET I ADRODDIAD Y GWEITHGOR CRAFFU – PLANT A PHOBL IFAINC PARTHED CYNHYRCHION MISGLWYF

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet yr Aelodau at yr adroddiad ger eu bron, a oedd yn rhoi casgliadau ac argymhellion y Gweithgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifainc i Aelodau'r Cabinet a gynhaliodd adolygiad mewn perthynas â darparu cynhyrchion misglwyf, yn dilyn Rhybudd o Gynnig.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am yr arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflwyno darpariaeth cynhyrchion misglwyf ar draws

y Fwrdeistref Sirol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes yr Aelodau at Atodiad 2 o'r adroddiad, sy'n rhoi cynllun gweithredu manwl sy'n cynnwys holl argymhellion y gweithgorau craffu. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn bwysig bod y bobl ifainc yn cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am weithredu'r cynllun a'i fonitro'n llwyddiannus.

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am waith cadarnhaol y gweithgor craffu ac am y potensial i'r fenter yma gael ei chyflwyno ledled Cymru trwy Lywodraeth Cymru.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd hefyd i'r gweithgor craffu am y gwaith y mae wedi ei wneud a gwnaeth sylwadau am ei ymgysylltiad cadarnhaol â'r bobl ifainc. Dylid parhau hyn gyda holl aelodau'r gweithgor. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ar ran yr Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, fod Aelodau'r Cabinet yn cefnogi'r argymhellion a'r cynllun gweithredu arfaethedig a'r angen i godi ymwybyddiaeth yn barhaus am y materion sy'n cael eu hamlygu gan y bobl ifainc i geisio dileu tldi misglwyf yn y Fwrdeistref Sirol a ledled Cymru, os bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r cynllun.

Siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman ar y mater hefyd.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi'r adolygiad sy'n cael ei ddarparu gan Bwyllgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifainc y Cyngor sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad yma.
2. Byddai'r Cynllun Gweithredu: 'Cynhyrchion Hylendid Merched mewn Ysgolion 2018/19' (fel sydd yn Atodiad 2 yr adroddiad) yn mynd i'r afael â'r argymhellion sydd yn adroddiad terfynol y gweithgor craffu ac yn gweithredu'r cynllun.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 pm

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**